



Proses Ymweliadau Adran 47 a Statudol Rhanbarthol Dros Dro yn ystod COVID-19

**BWRDD DIOGELU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

Ebrill 2020

Arferion Amddiffyn Plant yn ystod COVID-19

19/04/2020

Lluniwyd y cyfarwyddyd hwn i gynorthwyo arferion amddiffyn plant, yn enwedig gwneud penderfyniadau amddiffynadwy, yng nghyd-destun COVID-19. Mae'n cwmpasu cynllunio adran 47, ymweliadau amddiffyn plant, grŵp craidd a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

Cydbwysu perygl a ffyniant:

Yn ystod pandemig y COVID-19 mae angen ystyried y gall fod mwy o berygl i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu naill ai lawer iawn llai neu ddim cysylltiad â gweithwyr proffesiynol, aelodau o'r teulu a chyfoedion a newid mewn rhwydweithiau cefnogi. Erbyn hyn mae plant a theuluoedd yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser oddi mewn gyda'i gilydd, all arwain at bwysau ychwanegol ar yr uned deuluol. Fodd bynnag, mae arferion amddiffyn plant sy'n golygu cysylltiad uniongyrchol â'r plant a'u teuluoedd, yn cynyddu perygl lledaenu COVID-19. Mae angen i ni asesu perygl holl gysylltiad uniongyrchol â phlant a'r perygl o'u gadael mewn amgylchedd annigol. Felly, rhaid ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol bob amser:

- 1) Mae dyletswydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddiogelu a hyrwyddo diogelwch a ffyniant plant. Dylai unrhyw asesiad peryglon nawr gynnwys effaith hunan-ynysu a chysgodi ar ffyniant a diogelwch plentyn, a allai gynyddu perygl a thebygolrwydd niwed.
- 2) Mae cyfrifoldeb ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i leihau cysylltiad rhwng pobl i gynorthwyo rheoli ymlediad COVID-19 ac i hybu iechyd a ffyniant trwy sicrhau ymatebion cymesur yn y cyd-destun presennol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys plant a theuluoedd yn ogystal â'r gweithlu a rhaid ei ystyried trwy asesiadau risg COVID-19 Awdurdodau Lleol.

Rhaid i holl arferion a gwneud penderfyniadau amddiffyn plant ystyried yr egwyddorion allweddol hyn a chofnodi gwneud penderfyniadau sy'n ymgorffori hyn yn eglur. Rhaid cytuno unrhyw wyriad o weithdrefnau safonol gyda rheolwr a'i egluro ar gofnod y plentyn.

Amddiffyn plant yng nghyd-destun COVID-19:

Tra nad oes unrhyw sail dystiolaeth gyfredol ar fwy o debygolrwydd cam-drin plant yn ystod pandemig y COVID-19, mae sefydliadau ac arbenigwyr yn trafod dwysáu peryglon oherwydd hunan-ynysu. Dylai ymarferwyr a rheolwyr amddiffyn plant ystyried effeithiau tebygol hunan-ynysu, a allai gynnwys y canlynol:

- Mae gan addysg ran sylweddol wrth amddiffyn plant gydag athrawon fel arfer yn cael cysylltiad â'r plentyn 5 diwrnod yr wythnos. Bydd cau ysgolion a'r cyfyngiadau ar symud yn newid trefn reolaidd y plentyn yn fawr a lleihau cyfleoedd i nodi camdriniaeth.

- Bydd pwysau ychwanegol ar rieni a allai fod â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol dros aelodau o'r teulu sy'n agored i niwed neu'n dost a cholli cysylltiad â rhwydweithiau teuluol ehangach, cyfeillion a gwasanaethau cymorth. Fe all teuluoedd hefyd gael gofid ychwanegol trwy brofedigaeth.
- Bydd plant ac oedolion sy'n byw gyda chamdriniaeth deuluol yn cael eu hynysu ar yr aelwyd gyda'r cyflawnwr am gyfnod maith. Bydd yn anodd iddynt sôn am ynghylch pryderon neu ddigwyddiadau a theimlo na allant siarad â staff os yw'r cyflawnwr ar yr aelwyd yn ystod ymweliadau.
- Ni fydd plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol ar yr aelwyd, e.e. gan riant, llys-riant neu frawd neu chwaer, yn cael unrhyw seibiant oddi wrth y cyflawnwr.
- Efallai nad yw anghenion sylfaenol plant a phobl ifanc sy'n dioddef esgeulustod yn cael eu diwallu ac efallai nad yw eu ffyniant yn cael ei arolygu gan staff addysg ac iechyd a fyddai fel arfer yn dod i gysylltiad â'r plentyn a'r teulu.
- Fe all fod mwy o wewyr meddwl ac iselder ymhlith aelodau o'r teulu. Fe all teuluoedd deimlo mwy o dyndra oherwydd diffyg lle a methu bod ar wahân am ychydig.

Y cyfarfod i drafod y strategaeth:

Pan ddaw cyfeireb sy'n rhoi achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, dylid trefnu cyfarfod rhithwir i drafod strategaeth er mwyn penderfynu a ddylid dechrau ymholiadau adran 47 a sut ddylai hyn ddigwydd yng nghyd-destun COVID-19.

Wrth gynllunio **ymholiadau adran 47** a mynychu sefyllfaoedd argyfyngus bydd angen ystyried y ffactorau ychwanegol hyn:

- A yw'r perygl yn gofyn cyswllt uniongyrchol, neu a oes modd cynnal trafodaeth o bell?
 - Enghraifft: Fe all y perygl ymwneud â niwed oddi allan i'r teulu ac efallai nad yw'r un sy'n cael ei amau'n byw yn y cartref teuluol.
- Sut mae modd siarad â'r plant ar eu pennau'u hunain?
 - Pethau i'w hystyried: Oes yna unrhyw fan preifat yn y cartref teuluol? A oes modd siarad â'r plant yn breifat yng ngardd y teulu? Oes yna lecyn glas gerllaw sy'n ddiogel i fynd iddo a rhoi preifatrwydd?
- Os bydd gofyn, a oes modd i'r gweithiwr cymdeithasol siarad â'r plant a allai fod wedi dioddef heb yn wybod i'r rhiant neu ofalwr?
 - Enghraifft: A yw'r plant yn mynychu canolbwynt gofal plant ac, os felly, a oes modd eu gweld yno? A yw'r plant yn cael cymorth trwy gynllun amddiffyn gofal a chymorth ac, felly, mewn cyswllt rheolaidd eisoes gyda gweithiwr cymdeithasol heb neb arall yno?

- Os peryglwyd hyn, efallai y bydd angen i'r gweithiwr cymdeithasol ddweud wrth y rhieni y cafwyd cyfeireb sy'n gofyn siarad â'r plant heb neb arall yno. Gellid gwneud hyn trwy wneud ymweliad dirybudd â'r cartref teuluol a gofyn am gael siarad â'r plant heb neb arall yno. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol ystyried unrhyw ganlyniadau i'r plant pan fyddant yn dychwelyd adref a sicrhau siarad â'r rhieni ynghylch ymateb yn briodol iddynt. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r rheolwr ystyried a chofnodi effaith hyn ar ddiogelwch y plant.
- Beth yw statws iechyd y plentyn a'r teulu?
 - Os yw'r rhiant yn dweud bod y plentyn yn dost, bydd angen i'r rheolwr ystyried cynnwys y gyfeireb ac anghenraid gweld y plentyn.
 - Os bydd teimlad y dylid gohirio adran 47, i ganiatáu amser i'r plentyn wella, gofynnwch am gymeradwyaeth rheolwyr a chofnodi'r penderfyniad hwn. Rhaid ystyried diogelwch di-oed.
 - Os bydd teimlad fod gofyn amddiffyn y plentyn ar unwaith, rhaid i'r heddlu, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gynnal cyfarfod strategaeth ychwanegol ar unwaith i nodi sut i amddiffyn y plentyn. Bydd angen hysbysu uwch-reolwyr. Efallai y bydd angen symud plant o'u cartref teuluol tra byddant yn dost a'u doddi mewn lleoliad brys.
 - Dylid hysbysu unrhyw besychu bwriadol i gyfeiriad staff drwy'r trefnau iechyd a diogelwch ac i'r heddlu.
- Rhaid i holl ymarferwyr gofal cymdeithasol gyda chysylltiad â phlant a theuluoedd wneud asesiad peryglon a chadw hyn ar gofnod y plentyn. Rhaid dilyn canllawiau'r Awdurdodau Lleol ar Gyfarpar Diogelu Personol.

Ymweliadau amddiffyn plant:

Yn ôl Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019), **rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol weld y plant bob 10 diwrnod gwaith**. Bydd yr amserlen hon yn dal i fodoli yn ystod y pandemig; fodd bynnag efallai y bydd angen addasu'r dulliau cysylltu, ac fe all fod amgylchiadau pan nad yw ymarferydd Gwasanaethau Plant yn gallu gweld y plant gartref.

Fe all cael cysylltiad uniongyrchol â phlant effeithio ar eu hiechyd oherwydd bod mwy o berygl haint. Yn ei dro, bydd hyn yn peryglu ffyniant holl aelodau eraill yr aelwyd a chynyddu'r straen ar weithrediad y teulu a allai beri bod y plant mewn mwy o berygl. Os yw unrhyw aelodau'r aelwyd mewn categorïau risg uchel, rhaid i'r gweithwyr cymdeithasol siarad â'u rheolwyr a chytuno / cofnodi sut i symud ymlaen. Dylai'r drafodaeth hon ystyried dymuniadau a theimladau'r teulu.

Dan rai amgylchiadau, gallai ymweliadau Amddiffyn Plant gynnwys y canlynol:

- Cael galwad ffôn / sgwrs fideo gyda'r plant (os yw'n briodol i'w hoed) a'r teulu a gweld / siarad â'r plant a'r rhieni drwy'r ffenestr (dros y ffôn os yw hynny'n rhwyddach) neu wrth y drws.
- Treulio amser gyda'r plant heb neb arall yno mewn rhan breifat o'r cartref teuluol, yn yr ardd neu wrth gerdded trwy lecyn glas lleol gan sicrhau cadw pellter cymdeithasol.

Yn y pen draw, rhaid i holl benderfynu ddal fod yn amddiffynadwy, eu cytuno gyda rheolwr a'u cofnodi'n eglur ar gofnod y plant.

Grwpiau craidd:

Bydd y grŵp craidd dechreuol yn dal i gael ei gynnal ymhen 10 diwrnod gwaith ar ôl yr ICPC a rhaid iddo ddigwydd bob 6 wythnos neu'n amlach os oes gofyn. Fe all y rhain ddigwydd o bell a hynny dros gyfres o alwadau. Dylai aelodau grwpiau craidd aros mewn cysylltiad rheolaidd a chwilio am ffyrdd creadigol o gynorthwyo a diogelu'r plant.

Y cynllun amddiffyn gofal a chymorth:

Dylai'r rhain ddal i gael eu hadolygu a'u diweddarau gan aelodau'r grŵp craidd. Mae'n bwysig diweddarau'r cynllun i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn cymorth ac effaith hyn yn ogystal ag unrhyw newidiadau mewn peryglon oherwydd COVID-19. Fe all plant deimlo mwy o straen yn ystod y cyfnod hwn y dylid ei ystyried wrth asesu lles plant. Fe all plant ddod yn fwy gwyladwrus a theimlo'n bryderus ynghylch ffyniant aelodau eu teuluoedd. Fe allant weld y newyddion neu glywed eraill yn siarad am y pandemig a dioddef gwewyr meddwl a straen. Mae modd cynorthwyo rhieni ynghylch sut i gyfathrebu â'u plant ynghylch COVID-19 os oes gofyn. Dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i blant 0-3 oed sy'n ddibynnol ar eu rhieni am ofal. Bydd angen i holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plant a'u teuluoedd wneud ymdrechion i gynnal cysylltiadau. Dylid ystyried trefniadau lleol ar gyfer iechyd ac addysg yn y cynllun. Mae modd cynorthwyo teuluoedd i ddefnyddio canolbwyntiau gofal plant os oes gofyn, ac fe all hynny gael ei gynnwys yn y cynllun.